



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Nodiadau wedi'i gadarnhau Cyfarfod Briffio'r Bwrdd
a gynhaliwyd ar 10 Awst 2023, 13:15pm**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Ymchwil a Datblygu Polisi, yr Adran Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol
Samantha Morgan	(SM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaeth
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Kate Eden	(KE)	Dirprwy Gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Nathan Jones	(NJ)	Pennaeth Strategaeth a Chynllunio
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a Chyfarwyddwr Gweithredol
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu y Bwrdd

Ymddiheuriadau:		
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
John Bolton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod a nodi'r ymddiheuriadau a restrir uchod.
2. Sefyllfa Ariannol y GIG
Dechreuodd JW drwy atgoffa'r aelodau o drafodaethau Cyfarfod Briffio'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2023, sydd wedi'u cofnodi mewn Nodyn ar wahân.
Dyweddodd TC fod y Tîm Gweithredol wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid ac wedi datblygu cyfres o gynigion, yn seiliedig ar yr egwyddorion a rannwyd gyda'r bwrdd yn y Cyfarfod Briffio ar 27 Gorffennaf.
Yna cyflwynodd HG y cynigion yn seiliedig ar:
<ul style="list-style-type: none">- Yr arbedion y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cynnig i Lywodraeth Cymru o ran y gwariant sydd heb ei ymrwymo / heb ei ddyrannu hyd yma.- Y costau y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hymgorffori, o ran darparu / adfer gwasanaethau.- Unrhyw gostau y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru eu lleihau o ran codi tâl ar Fyrddau Iechyd am wasanaethau.- Roedd y cynigion yn canolbwyntio ar dri maes: Arbedion y Sefydliad / Arbedion Corfforaethol, arbedion ar lefel Cyfarwyddiaeth, ac arbedion y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio.- Cyfanswm y cynigion oedd £3.4 miliwn, sef 2.5% o ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru (roedd yn rhaid i Fyrddau Iechyd gynnig arbedion ar gyfer eu diffyg a gynlluniwyd)- Roedd £1.5 miliwn yn ymwneud ag arbedion corfforaethol, gan gynnwys: gostyngiad mewn cyllid buddsoddi; costau chwyddiant is na'r disgwyl; pwysau'n gysylltiedig â chyllid nad oedd yn ymwneud â thâl nad oedd ei angen ar gyfer 23/24; ac arbedion yn gysylltiedig â chodi cyfraddau llog.- Arbedion ar lefel Cyfarwyddiaeth o £0.463 miliwn.- Roedd cyfanswm yr arbedion yn yr adran Diogelu Iechyd yn £1.427 miliwn, a hynny yn sgil y tanwariant a ragwelwyd a chronfeydd heb eu dyrannu gan gronfa trawsnewid Diogelu Iechyd.

- Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a fyddai'n ariannu nifer o ddatblygiadau ac achosion busnes arfaethedig, gan gynnwys rhaglenni Adfer Sgrinio, Sgrinio Canser yr Ysgyfaint ac Archwiliad Corfforol Casnewydd. Cyfanswm y rhain oedd £2.099 miliwn.
- Gwariant Covid: roedd Llywodraeth Cymru wedi neilltuo hyd at £16.93 miliwn ar gyfer 2023/24, ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn annhebygol o ddefnyddio £2.159 miliwn o hwnnw.

Diolchodd JW i HG ac i bawb fu'n rhan o'r gwaith trylwyr o lunio'r gyfres o gynigion o fewn amserlen fer iawn; yna gofynnodd am unrhyw sylwadau/cwestiynau.

Mewn trafodaeth eang, cododd aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol:

- Pwysigrwydd peidio â tharfu ar yr agenda atal ac iechyd y boblogaeth, a'r brys ychwanegol i ddangos effaith y gwariant ar hyn;
- Yr angen i bwysleisio natur afreolaidd y cynigion;
- Y brys i barhau i ganolbwyntio ar Adfer y Gwasanaethau Sgrinio;
- Pwysigrwydd ymgysylltu â'r staff a darparu canllawiau eglur;
- Yr angen am ddiffiniad clir o'r arbedion y gall Iechyd Cyhoeddus eu gwneud ei hun a'r rhai ble mae angen cymorth y byrddau iechyd;
- Yr angen i osgoi tarfu ar y broses o gyflawni cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Ar y pwynt diwethaf, cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol fod y cynigion yn deillio o: swyddi gwag, oedi gyda recriwtio, llithriant ar ôl methu â recriwtio, cyllid y gyfarwyddiaeth heb ei ddyrannu hyd yma a diwygio'r dull o ddarparu'r gwasanaethau. Ni ddylai'r cynigion darfu ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Diolchodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol i'w Swyddogion Gweithredol am eu sylwadau, a chawsant sicrwydd yn sgil yr esboniadau a ddarparwyd.

Cadarnhaodd TC y byddai'r llythyr i Lywodraeth Cymru yn pwysleisio mor gryf â phosibl y pwynt ynglŷn â'r gwariant ar atal ac iechyd y boblogaeth; amlinellodd hefyd y canllawiau arfaethedig i staff, gan bwysleisio osgoi gwariant diangen, cyfyngu ar ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb a chyfyngu ar deithio rhyngwladol i'r hyn y cytunwyd arno eisoes, neu wedi'i ariannu'n allanol.

Diolchodd JW i bob aelod o'r Bwrdd am eu sylwadau gwerthfawr, gan gadarnhau y byddai'r llythyr yn cynnwys y materion pwysig a godwyd; byddai TC yn cyflwyno hyn, ynghyd ag atodlen o'r cynigion, y diwrnod canlynol, ynghyd â chopi i'r Bwrdd. Mae'r mater yn parhau i fod yn gyfrinachol ar hyn o bryd, gan fod y cynigion gan bob bwrdd iechyd yn cynnwys cynigion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ac nid ydynt yn cynnwys penderfyniadau ar lefel y Bwrdd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Nodiadau wedi'i gadarnhau 10 Awst 2023
------------------------	-------------------------------------------

Daeth JW â'r Cyfarfod Briffio i ben, gan ailadrodd gwerthfawrogiad y Bwrdd o'r gwaith caled a oedd ynghlwm â llunio'r cynigion.
Daeth y cyfarfod i ben am 14:10

Wedi'i Gadarnhau